**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf EMMG211021

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

10 Tachwedd 2021

Annwyl Paul

Ymrwymais i fynd i'r afael â dau bwynt gweithredu yn dilyn cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021.

Codwyd y cyntaf gennych chi mewn perthynas â'r strategaeth bwyd môr:

*T.135 - ... strategaeth bwyd môr Cymru a lansiwyd yn 2016? Yn y strategaeth honno, yr oedd targed ar gyfer cyflawni cynnydd o tua 30 y cant. Felly, a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch a ydym wedi cyflawni'r targed hwnnw a beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth?*

Lansiwyd strategaeth Bwyd Môr Cymru, a ddatblygwyd gan Bwyllgor Cynghori Bwyd Môr Cymru, yn ystod Wythnos Bwyd Môr ym mis Hydref 2016. Amlinellodd y strategaeth weledigaeth diwydiant bwyd môr Cymru ar gyfer twf cynaliadwy yn ystod y cyfnod rhwng 2016 a 2025. Er bod Llywodraeth Cymru yn arsylwyr ar Bwyllgor Cynghori Bwyd Môr Cymru, mae'r strategaeth, ac unrhyw dargedau cysylltiedig, yn ddogfen sy'n cael ei datblygu a'i pherchenogi gan y diwydiant.

Deallaf y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynghori ym mis Hydref, nad oedd y strategaeth bellach yn addas i'w diben yn dilyn Brexit a COVID-19, ac na fyddai bellach yn rhan o flaengynllun gwaith y Pwyllgor.

Codwyd yr ail fater gan Carolyn Thomas AS ynghylch gwirio microsglodion mewn cŵn wrth reoli'r ffin:

*T.157 - ... am anifeiliaid anwes, am gŵn. A fyddai'n bosibl chwilio am sglodion mewn cŵn mewn rheolaethau ar y ffin hefyd? A yw hynny'n rhywbeth y gellid ymchwilio iddo wrth inni edrych ar gael y ffin yn rheoli symudiadau anifeiliaid? A allem sganio i weld a oes sglodion yn y ci hwnnw, ac os ydynt ar gofrestr o anifeiliaid anwes coll, efallai? A yw hynny'n rhywbeth y gallem ymchwilio iddo?*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn amlinellu rhai o'r camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â dwyn anifeiliaid anwes, a chanfyddiadau'r Tasglu; yr ymchwil barhaus ar y Rheoliadau microsglodynnu; y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) a newidiadau arfaethedig i'r cynllun PET a rheolaethau presennol ar y ffin yng Nghymru a Phrydain Fawr.

Sefydlwyd Tasglu Dwyn Anifeiliaid Anwes, ar gyfer y DU, gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a Defra a chyhoeddwyd eu canfyddiadau ar 3 Medi 2021

https://www.gov.uk/government/publications/pet-theft-taskforce-report/pet-theft-taskforce-report

Mae rhai o'r argymhellion yn cael eu gweithredu, yn benodol mewn perthynas â'r cronfeydd data sy'n gweithredu yn y DU ac mewn mannau eraill, i sicrhau bod y system yn cael ei symleiddio a bod gwiriadau'n haws eu cyrraedd a'u harchwilio. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'u cymheiriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod newidiadau a wneir i gasglu, dal a hygyrchedd data yn cael eu tynhau.

Yn ogystal, mae prosiect ymchwil ar effeithiolrwydd a gorfodi'r Rheoliadau microsglodynnu presennol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn dwyn ffrwyth a ddylai nodi lle mae angen atgyfnerthu neu wella gweithdrefnau gorfodi. Mae'n werth nodi bod y cynnig i gynnwys microsglodynnu gorfodol ar gyfer barcutiaid/cathod hefyd yn rhan o'r prosiect ymchwil hwn.

Ar hyn o bryd mae'n ofynnol sganio ci bach neu gi sy'n dod i Brydain Fawr drwy borthladdoedd naill ai fel rhan o'r cynllun PET neu fel mewnforiwr masnachol. Mae Cymru wedi'i chynnwys ym Mil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) Llywodraeth y DU 2021 sy'n mynd rhagddo drwy'r broses Seneddol ac mae'r Bil hwn yn cynnwys 4 prif gynnig fel a ganlyn:

a) Cynyddu oedran isaf cŵn a fewnforiwyd a chŵn anfasnachol o 15 wythnos i 6 mis;

b) Gwahardd mewnforio a symud cŵn nad ydynt yn fasnachol gydag anffurfio nad yw wedi'i eithrio;

c) Lleihau nifer yr anifeiliaid sy'n gallu teithio o dan y rheolau teithio anifeiliaid anwes anfasnachol;

d) Gwahardd mewnforio a symud am resymau anfasnachol ast (ci) sy'n fwy na 42 diwrnod yn feichiog.

Nod y Bil hefyd yw creu cosbau am beidio â chydymffurfio ag a), b) ac c), a allai arwain at naill ai gyfnod o garchar, neu ddirwy (neu'r ddau). Nid yw’r manylion am hyn wedi’u pennu derfynol eto, ac er ei fod yn destun yr ymgynghoriad a ddaeth i ben yn ddiweddar ac er y bydd yn cael ei adolygu'n fuan fel rhan o’r ymgynghoriad ar Symudiadau Masnachol ac Anfasnachol Anifeiliaid Anwes, bwriad y Bil hwn yw nid yn unig ddiwygio'r amodau y gall anifeiliaid anwes deithio oddi tanynt am resymau lles, ond hefyd geisio gwaredu’r fasnach broffidiol mewn anifeiliaid anwes sy'n camddefnyddio'r ddau ddull o symud anifeiliaid i Gymru.

Mae'r llwybrau masnachol ac anfasnachol sy'n hwyluso symudiadau anifeiliaid anwes i Brydain Fawr yn ei gwneud hi’n ofynnol sicrhau bod anifail wedi'i ficrosglodynnu cyn (at ddibenion masnachol) neu cyn/yn ystod (at ddibenion brechu anfasnachol).

O safbwynt symudiadau anfasnachol i Gymru, rhaid i anifeiliaid anwes sy’n teithio gyda'u perchenogion ddefnyddio llwybr a chludwr cymeradwy, oni bai eu bod yn teithio o Iwerddon. Nid yw maes awyr Caerdydd yn llwybr cymeradwy a’r unig lwybrau i anifeiliaid anwes o safbwynt dod i mewn i Gymru yw drwy lwybr fferi Dulyn i Gaergybi, Rosslare i Abergwaun a Rossolare i Benfro.

Er bod gan bob gweithredwr reolau gwahanol ar sut y mae'n rhaid i'ch anifail anwes deithio ar fwrdd eu fferïau, dylent oll gydymffurfio â'r gofynion sylfaenol o gael microsglodyn a'u brechu, ond nid yw'r cludwyr yn cynnal gwiriadau ar y llwybrau hyn, a hynny oherwydd y trefniadau teithio unigryw rhwng Prydain Fawr ac Ynys Iwerddon.

Mae'r llwybr masnachol yn wahanol gan fod yn rhaid i anifeiliaid o drydedd wlad fynd i mewn drwy Safle Rheoli Ffiniau (BCP) – nid oes unrhyw safle o’r fath yng Nghymru ar hyn o bryd, ond y broses yn y safleoedd rheoli ffiniau sydd mewn rhannau eraill o Brydain Fawr yw fod y microsglodyn a gofynion eraill o ran dogfennau yn cael eu gwirio gan Filfeddyg Swyddogol – mae dull o’r fath lawer yn fwy ymarferol ei weithredu, a chaiff diffyg cydymffurfio ei gefnogi gan ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i anifeiliaid gael eu cadw fel bod modd cynnal gwiriadau pellach. Pan fydd Safleoedd Rheoli Ffiniau ar waith yng Nghymru, bydd angen i fewnforion o'r UE hefyd ddod i mewn drwy Safle Rheoli Ffiniau. Dyma newid a fydd yn gwella ymhellach y mesurau rheoli sydd ar waith i ganfod mewnforion nad ydynt yn cydymffurfio. Dylai’r gwaith a amlinellir uchod i wella cronfeydd data am ficrosglodion hefyd hyrwyddo ein gwaith rheoli mewnforio ar lefel fasnachol.

Yn ogystal â'r uchod, hoffwn grybwyll y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru yn ddiweddar. Mae’r Cynllun hwn yn cynnwys yr ymrwymiadau lles anifeiliaid a gyhoeddwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, yn ogystal â gwaith datblygu polisi penodol parhaus yng Nghymru, a chyfeiriad at gydweithio â gweddill y DU/Prydain Fawr lle mae hyn yn atgyfnerthu camau gorfodi ac erlyniadau.

Hyderaf fod yr uchod yn esbonio'r heriau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd a hoffwn eich sicrhau y byddwn yn parhau i gyhoeddi negeseuon cryf ar y mater hwn a bydd asiantaethau gorfodi yn parhau i weithredu o fewn y ddeddfwriaeth bresennol ac unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir yn y dyfodol i leihau nifer yr anifeiliaid anwes a gaiff eu dwyn yn y lle cyntaf a hefyd sicrhau ailgartrefu cyflym gyda’r perchennog gwreiddiol lle bynnag y bo modd.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**